RHEOLAU GOLFF CYMRU

1. Cyflwyniad

Bydd yr holl delerau a ddiffinnir yn y Rheolau hyn yn dal yr un ystyr â'r rhai a ddefnyddir yn Erthyglau Cymdeithas Undeb Golff Cymru Cyfyngedig (yr "Undeb") dyddiedig 29 Mehefin 2021.

2. Tanysgrifiadau Clwb Blynyddol

2.1 Bydd y Bwrdd yn penderfynu ar y tanysgrifiad blynyddol sy'n daladwy gan bob Clwb yn unol â'r Rheolau hyn. Bydd yn rhedeg rhwng 1 Medi a 31 Awst bob blwyddyn.

2.2 Rhaid i bob Clwb dalu ffi am bob Oedolyn ac Aelod Iau (gan gynnwys y rhai ag aelodaeth hyblyg) sydd â hawliau chwarae dros y cwrs ar 31 Awst bob blwyddyn (y "Ffi Tanysgrifio") fel yr hysbysir gan y Bwrdd. Am fanylion pellach gweler Atodiad 1.

2.3 Bydd gan y Bwrdd (yn ôl ei ddisgresiwn llwyr) hawl:

(a) bob blwyddyn i gynyddu'r Ffi Tanysgrifio hyd at 5% neu
(b) ar unrhyw adeg i gynyddu'r Ffi Tanysgrifio gan swm sy'n fwy na'r swm a nodir yn Rheol 2.3 (a) os oes rheswm y gellir ei gyfiawnhau dros wneud hynny ym marn resymol y Bwrdd.

Bydd y Bwrdd yn ei gwneud yn ofynnol i bob Clwb gwblhau ffurflen aelodaeth ar-lein. Rhaid i bob Clwb lenwi'r ffurflen ar-lein yn gywir gan restru nifer yr Aelodau Oedolion ac Iau (fel y manylir ym mhwynt 2.2) ar 31 Awst yn y flwyddyn honno a thalu'r holl Ffioedd Tanysgrifio i Golff Cymru erbyn 30 Tachwedd.

2.4 Os yw Clwb yn methu â chwblhau'r ffurflen ar-lein a thalu'r holl Ffioedd Tanysgrifio i Golff Cymru erbyn y 1 Mawrth canlynol, bydd gan y Bwrdd hawl i atal unrhyw un neu bob un o freintiau'r Clwb fel Aelod nes bod yr hysbysiad tanysgrifio wedi'i ddychwelyd a phob Ffi Tanysgrifio wedi'u talu'n llawn.

2.5 Os yw Clwb yn methu â chwblhau'r ffurflen ar-lein a thalu'r holl Ffioedd Tanysgrifio i Golff Cymru erbyn y 1 Ebrill canlynol, bydd gan y Bwrdd hawl i dynnu'r Clwb hwnnw o aelodaeth o'r Undeb yn unol â Rheol 3.1 (b).

2.6 Os bydd y Bwrdd yn gofyn amdano, bydd pob Clwb o fewn 14 diwrnod yn rhoi manylion llawn ei gofnodion aelodaeth i'r Bwrdd ac yn caniatáu i'r Bwrdd neu ei gynrychiolwyr awdurdodedig archwilio cofnodion aelodaeth y Clwb sydd ar ei eiddo.

2.7 Mae'n ofynnol bod gan bob clwb y polisïau ysgrifenedig canlynol sy'n gyson â chanllawiau diweddaraf Golff Cymru:

(a) Polisi diogelu plant ac oedolion; a
(b) Polisi Cydraddoldeb.

2.8 Os gofynnir amdano gan Golff Cymru, bydd pob clwb, cyn pen 30 diwrnod ar ôl cais o'r fath, yn darparu copi o unrhyw bolisi sy'n ofynnol o dan Reol 2.7 uchod i Golff Cymru.

3. Diarddel Aelodau

3.1 Gall y Bwrdd, gan ystyried natur a difrifoldeb yr ymddygiad dan sylw, yn ôl ei ddisgresiwn llwyr, atal unrhyw un neu bob un o freintiau'r Clwb fel Aelod, ceryddu, rhoi ar brawf, atal, neu ddiarddel Aelod os bydd y digwyddiadau canlynol yn codi pen:

(a) Os yw Aelod, ym marn y Bwrdd, wedi gweithredu neu wedi bygwth gweithredu mewn modd sy'n groes i fuddiannau'r Undeb cyfan neu os yw ei ymddygiad (p'un ai fel Aelod neu fel arall) yn debygol o ddod â Golff Cymru, neu unrhyw un o'i Gyfarwyddwyr neu Aelodau i anfri;

(b) Os yw Aelod yn methu â thalu'r Ffioedd Tanysgrifio blynyddol a godir yn briodol gan y Bwrdd yn unol â Rheol 2.

(c) Os nad oes gan Aelod yr holl bolisïau ysgrifenedig sy'n ofynnol gan Reol 2.7 ac nad yw'n cywiro hyn cyn pen 30 diwrnod ar ôl i Golff Cymru ofyn amdanynt neu'n methu â darparu copi o'i bolisïau diogelu i Golff Cymru fel sy'n ofynnol o dan Reol 2.8.

Golff Cymru
Ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2021-22 Diwygiwyd Medi 2021

ATODIAD 1

Cwestiynau Cyffredin

Beth yw Aelod Oedolyn?
Aelod sy'n oedolyn yw unrhyw un sy'n 18 oed neu'n hŷn ar 1 Ionawr 2021 sydd â'r hawl i chwarae dros gwrs (cyrsiau) dynodedig y clwb ni waeth a ydyn nhw'n dewis dal handicap ai peidio.

Beth yw Aelod Iau?
Aelod iau yw unrhyw un o dan 18 oed ar 1 Ionawr 2021 sydd â'r hawl i chwarae dros gwrs (cyrsiau) dynodedig y clwb ni waeth a ydyn nhw'n dewis dal handicap ai peidio.

Beth yw Aelodaeth Hyblyg?
Mae Aelodaeth Hyblyg yn cynnwys:

Pecynnau aelodaeth sy'n cyfuno tanysgrifiad aelodaeth is gyda ffi werdd ostyngedig neu elfen talu wrth chwarae.

Pecynnau aelodaeth yn seiliedig ar bwyntiau neu gredyd; e.e. platfform Playmoregolf a systemau tebyg eraill.

Oes angen cynnwys yr holl aelodau sydd hefyd yn aelodau o glwb golff arall e.e. aelodau i ffwrdd?
Oes.

Oes angen cynnwys aelodau anrhydeddus?
Dim ond aelodau Anrhydeddus am Oes y gellir eu heithrio o'r cyfrifiad. Mae angen cynnwys unrhyw un sydd wedi talu am aelodaeth oes yn y ffurflen.

Oes angen cynnwys cyfranogwyr yn rhaglen Golff Cymru New2Golf?
Na.

Oes angen cynnwys Aelodau Treial a / neu Aelodau Dros Dro?
Oes, os ydyn nhw'n aelod ar 31 Awst 2021.

Oes angen cynnwys cyfranogwyr yr academi?
Oes, os oes ganddyn nhw hawliau chwarae ar y cwrs.